WG35.5.74

# MARWNADAU;

Y GYNTAF,

ER COFFADWRIAETH AM Y DIWEDDAR

## BARCH. G. HUGHES,

GROESWEN,

Yr hwn a fu farw Gorph. 30, 1839, yn y 64ain flwyddyn o'i oedran, 42 o ba rai y bu yn weinidog diwyd a ffyddlon yn eglwys yr Annibynwyr yn y lle uchod.

YR AIL,

ER COF AM Y DIWEDDAR

## MRS. MARY LEWIS,

Gwraig gyntaf Mr. W. Lewis, gynt o Bontygwindy, ger Caerphili, yr hon a fu farw y 6fed o Ebrill, 1836.

GAN JAMES PROTHEROE, PENYGROES.

LLANELLI:

ARGRAFFWYD GAN REES A THOMAS, SWYDDFA'R DIWYGIWR.

1842.

15251

X205310,1,6

Accessions No. 15251
Class No.

## *Marwnad y Parch. G. Hughes.*

Mae amser yma beunydd
  Yn dwyn newyddion sỳn,
'Nol im' gael hoff gyfeillion,
  Eu colli 'rwyf yn llŷn;
Daeth angeu'r gelyn creulon,
  A'i gledd mwy llym nâ'r dûr,
Heb gêl fe aeth â'n bugail
  O'n gwydd i'r bywyd pur.

Ond, Och! hen angeu digllon,
  Pa'm roest i ni'r fath glwy'?
Pa'm rwygaist g'nifer calon
  Na's gwellir m'o honynt mwy?
Pa'm t'rewaist mor angeuol
  Ein ffyddlawn fugail gwiw?
Pa'm 'roest fath ergyd marwol
  I'n hanwyl flaenor, clyw?

Meddyliem ni gallesid
  'N haws hebgor llawer un,
Nâ'n dewr genadwr bywyd,
  'Roed in' gan Dduw ei hun;
'Est heibio i lawer gelyn,
  Segur-ddyn, sàrug, sawr,
Pa'm 'rest, 'rym etto'n gofyn,
  A'n Hughes mor llwyr i'r llawr?

Ond dyna, ofer gofyn
  I ti ro'i clust i'n cwyn,
Ni wybu'th greulon golyn
  'Rioed ddim am deimlad mwyn;
Och! elyn hen ddynoliaeth,
  Ti loriaist lawer oes,
Rhoi i finnau'r olaf alaeth
  Cyn hir â'th ingawl loes.

UNIV. COLL. OF WALES LIBRARY

Nid oes na dysg, na doniau,
'Mhlith dewrion gwycha'u gwawr,
Eill attal brenin dychryn
I dòri'n ffryndiau'i lawr;
Mae yn ei feddiant warrant,
Ac arni Ddwyfawl sêl,
I wysio'r enaid adref,
A'r corff i'r llwch dan gêl.

Syrthiodd ein seren siriol,
A'n canwyll glir ei ddawn,
'N deg d'wynodd ar Forganwg,
Tros ddeugain mlynedd llawn;
Do, teithiodd llwythau Israel
'N finteioedd fro a bryn,
'N ei llewyrch prydferth goleu,
Bydd cofio byth am hyn.

Ca'dd HUGHES, sef gwrthddrych gorwiw
Ein cofiant yma'n awr,
Ei alw i winllan Iesu,
Yn moreu'i drydydd awr;
Ni throdd ei gefn arni,
Cyn gweithio ei ddydd yn llawn,
Bu'n orgu gan ei frodyr
O'i foreu glas hyd nawn.

Fel Timoth. er yn fachgen,
Fe ddysgodd eiriau'r nef,
Nid neb'n ei oes yn amgen—
*Geiriadur* gelwid ef;
'Phan 'doedd ond 'ginyn egwan
Fe'i codwyd ar y mûr,
'Gyhoeddi i bob oedran,
Haeddiannau'n Prynwr pûr.

Brodorion eglwys Elian,
Ac holl gynnulleidfa'r Groes,
A dystiant yn unfrydawl,
Ei lwyddiant rhwydd trwy'i oes;

Pan fyddai'n hŷ'n cyhoeddi
'R newyddion da i'r byd,
Ceid gwel'd y dyrfa'n wylo,
A gorfoleddu'n nghyd.

Hoff destun HUGHES trwy'i yrfa,
Oedd trefn cyfammod rhad,
'R hen gynghor cyn y bryniau,
A phwrcas gwerthfawr wa'd;
A'r testun llesawl hwnw,
A dd'wisai'i olaf ddydd,
Idd ei gyhoeddi i'r werin,
Pan rhoent ei gorff dan gudd.

Sef, "Gwir yw geiriau'r bywyd,
Dd'od Iesu Grist i'r byd,
I gadw pechaduriaid,
A'r pena' o'r rhai'n i gyd;"
A'r penaf hwnw gwelwch
A'i draed 'nawr yn y dŵ'r,
Ond 'FE yw 'niogelwch,
Mae i mi'n gadarn Dŵr.

'Fe safodd ar y muriau,
'N arwraidd iawn ei ddawn,
Cyhoeddai'n ngwydd y werin,
Rhinweddau'r aberth llawn;
Fel hanner dydd gwnai'n oleu,
Mae pwrcas angeu'r groes,
Yw gobaith cŷrau'r ddaear,
'R hwn bery o oes i oes.

Fe deithiodd siroedd Cymru,
Trwy'r Gogledd a thrwy'r De',
Ca'dd saint o amrai enwau
Eu lloni trwyddo fe;
Pan safai mewn cymmanfa
I g'hoeddi'r Dwyfol wir,
Fe'i clywid yn eitha'r dyrfa,
A'i lais fel udgorn clir.

'Roedd yn ei ddrychfeddyliau,
  Rhyw 'stôr o synwyr mawr,
'R hyn fyddai'n destun syndod
  I'w frodyr lawer awr;
(" Doethineb oddiuchod,
  Un foneddigaidd yw,")
Gwir ddysgodd ostyngeiddrwydd,
  Hardd arwydd delw Duw.

Fe gofir am ei enw
  Adroddir am ei waith,
Yn mhlith hiliogaeth Gomer,
  Tros hir flynyddau maith;
Gŵr cywir yn ei gynghor,
  Am feddyginiaeth rhâd,
Er attal pob gwahanglwyf,
  Yn rhwydd trwy rîn y gwa'd.

Mae Sïon egwan etto
  Heb sychu ei dagrau'n llwyr,
Rhyw riddfan ac och'neidio
  Sy'n para o foreu hyd hwyr;
Rhow'd testun Och! gan angeu
  'R un dydd in' deulu'r Groes,
Trwy ladd ein brawd a'n blaenor,
  O!'r briw i'n calon roes.

'N llon yn ei law'r arweiniai
  Y praidd i faesydd brâs
Y gair, ac at ffynnonau
  Gwiw addewidion grâs;
'Mgeleddai'r hen fammogiaid,
  Gwrandawai ar eu cwyn,
Meithrinai weiniaid Sïon,
  'N ei fynwes megys ŵyn.

'Fe dd'wedwyd gan ei frodyr,
  Bod yn mhob man do'i 'fe,
Rhyw arwydd llawn tangnefedd,
  Yn tremio'n llond y lle;

Pan byddai rhyw anghydfod
  Yn mhlith cynnulleidfa'r saint,
'Roedd'n gadarn ŵr o gynghor
  Er attal rhedfa'r haint.

Oh! dewch holl feib yr awen,
  Mwy medrus i ro'i 'nghyd,
Mewn geiriau mwy cynghanedd
  Nâ'r un o'r rhai'n eu gyd;
Fel b'o etto melus gofio
  Tros hir flynyddau maith,
Am un o'r hâd breninawl,
  Aeth adre' i ben ei daith.

Fy nghyfaill HUGHES ddiangodd
  Rhyw fisoedd o fy mla'n
I blith y dyrfa ddedwydd,
  Sydd fry 'Nghaersalem lân;
Ca'dd delyn aur i'w chwareu,
  A'i thânau'n eithaf tŷn,
Fe gânodd lawer yma,
  Ond gwell ar Sïon fryn.

Pan fyddwyf yn dychymmygu
  Ei wel'd fry yn ddi-boen,
Yn rhydd oddiwrth pob dolur,
  Yn nghwmni'r aeddfwyn Oen;
Pob methrwydd gwedi 'madael,
  Tragwyddol ieuenctyd mwy,
Yn seinio byth Hosanna
  Am rinwedd marwol glwy'.

Rhaid i mi 'nawr ro'i ffarwel,
  A therfyn ar fy nghân,
'Rwy'n gwel'd fy oriau innau
  Yn dirwyn yn y bla'n;
Mewn gobaith cael cwrdd etto,
  Heb lesgedd, briw, na phoen,
'Gyd-gânu am byth anthemau,
  Mewn gwynfa gyda'r Oen.

## *Marwnad Mrs. Mary Lewis.*

---

Daeth i ni y newydd sydd alar â chân;
Arwyddion a gafwyd rhai misoedd o'r bla'n,
Am un o blant Sïon a deithiodd yn hir,
Orphenodd ei gyrfa 'i ffydd gadwodd yn glir.

Bu yma flynyddoedd yn siriol a mwyn,
Yn goledd i'r gweiniaid, yn fynwes i'r ŵyn;
Hi gododd y faner foreu-ddydd ei hoes,
Gorphenodd ei gyrfa yn myddin y groes.

Tra yma'n preswylio am dymmor cryn faith,
Bu'n 'mofyn a chwilio am 'nabod y iaith,
Iaith hyfryd gwlad Canaan, iaith gywir gwir ffydd,
'R iaith ddysgodd proffwydi ar dòriad y dydd.

'R oedd ganddi hyfrydwch heb 'dganu â'i llef,
I loni'r bugeiliaid, cenadon y nef;
Ei theulu fu'n lletty mor weddaidd a llawn,
Morganwg a Mynwy 'n hir cofiant ei dawn.

Pan deuai'r cenadon i gylchoedd ein gwlad,
Rhai fuasai'n marchogaeth ac ereill ar dra'd;
Ei gegin a'i marchdŷ, y neuadd a'r gell,
F'ai'n gwneuthur y teithwyr yn llawer iawn gwell.

Bu Mary yn siriol, dangosodd ei dawn,
Ei dwylaw oedd weithgar, a'i chariad yn llawn;
Caiff ardal Caerphili, a'i chylchoedd yn mhell,
I chwilio cryn lawer cyn caffont ei gwell.

Pan fyddwyf yn cofio rhinweddau'r un hardd,
Mi garwn, pe meddwn ar ddoniau rhyw fardd;
Mi roddwn ei chofiant yn llechres yr oes;
'Does neb ond plant *Agar* a dd'wedant yn groes.

Bu yma feddygon goreuon ein tir,
Deall'sant ei dolur, debygwn yn wir;
Ond er eu holl fedr, eu dyfais, a'u dawn,
Daeth angeu er hyny â'i phabell i'r llawr.

Rhaid i mi rhoi ffarwel a gadael fy ffrynd,
'Does dyfais yn un man a'i hattal rhag myn'd,
I'r daith appwyntiedig 'nol 'wyllys fy Ior,
I holl ferched Sarah i gyrhaedd y côr.

Dychwelwch gyfeillion o amgylch ei bedd,
Terfynodd ei llafur, newidiodd ei gwedd;
Daeth angeu'n ŵr creulon cyrhaeddodd ei bron,
Mewn lloches yn llechu mae'i llwch tan y dòn.

Mor oer ydyw'r lletty, tir anghof yw'r bedd,
Ond bloedd yr arch-angel gyfnewid ei gwedd;
Daw seintiau'r hen oesoedd boreuaf i ma's,
Yn lluoedd canmolant am gariad a gras.

Daw Abra'm a Sarah o Mamre, tir pell,
Er hardded oe'nt yma, hwy godant yn well;
Canfyddant, a syllant ar sylwedd yr hwrdd,
Pan fyddo terfynau'r holl ddaear yn cwrdd.

Anneirif yw'r tystion ddiangodd o'r bla'n,
A ddaliodd yn wrol trwy ddyfroedd a thân;
Gobeithio 'rwyf finnau er gwaned fy ffydd,
Gwel'd terfyn yr hirnos a thoriad y dydd.

---

*Argraffwyd gan Rees a Thomas, Llanelli.*